# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 8

ATODOL

*Is-swyddogaethau*

### 47 Datganiad polisi a datganiad ynghylch ymgynghori

(1) Rhaid i Gymwysterau Cymru lunio datganiad o'i bolisi ("datganiad polisi") mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan—

(a) Rhan 3 (cydnabod cyrff dyfarnu);

(b) Rhan 4 (cymwysterau blaenoriaethol a chymeradwyo cymwysterau);

(c) Rhan 5 (dynodi cymwysterau eraill);

(d) Rhan 7 (pwerau gorfodi Cymwysterau Cymru);

(e) adran 45 (darparu gwasanaethau etc gan Gymwysterau Cymru);

(f) adran 46(1) (adolygiadau).

(2) Rhaid i'r datganiad polisi gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) yr amgylchiadau pan fo cydnabyddiaeth o gorff dyfarnu yn debygol o gael ei gwneud yn ddarostyngedig i amod arbennig;

(b) y materion sy'n debygol o gael eu hystyried gan Gymwysterau Cymru wrth benderfynu pa un ai i ddynodi ffurf ar gymhwyster o dan adran 29, wrth benderfynu ar y cyfnod y mae dynodiad o'r fath i gael effaith ar ei gyfer ac wrth benderfynu pa un ai i ddirymu dynodiad o'r fath;

(c) y meini prawf sy'n debygol o gael eu cymhwyso gan Gymwysterau Cymru wrth benderfynu a yw'n briodol mewn unrhyw achos osod amod capio ffioedd er mwyn sicrhau gwerth am arian;

(d) y materion sy'n debygol o gael eu hystyried gan Gymwysterau Cymru wrth benderfynu ar y terfyn a bennir mewn amod capio ffioedd;

(e) cyfnod para tebygol amod capio ffioedd;

(f) yr amgylchiadau pan fo cyfarwyddyd yn debygol o gael ei roi i gorff dyfarnu yn unol ag amod trosglwyddo, a thestun tebygol unrhyw gyfarwyddyd a roddir yn unol ag amod trosglwyddo;

(g) y materion sy'n debygol o gael eu hystyried gan Gymwysterau Cymru wrth benderfynu pa un ai i wneud taliad i gorff dyfarnu o dan baragraff 15 o Atodlen 3, ac wrth benderfynu ar swm unrhyw daliad o'r fath;

(h) yr amgylchiadau a'r adegau pan fo amodau arbennig yn debygol o gael eu hadolygu neu eu diwygio, a'r ffactorau sy'n debygol o gael eu hystyried mewn unrhyw adolygiad neu ddiwygiad;

(i) yr amgylchiadau pan fo Cymwysterau Cymru yn debygol o osod cosb ariannol o dan adran 38;

(j) y ffactorau y mae Cymwysterau Cymru yn debygol o'u hystyried wrth benderfynu ar swm cosb sydd i'w osod o dan yr adran honno.

(3) Rhaid i Gymwysterau Cymru hefyd lunio datganiad sy'n nodi—

(a) yr amgylchiadau pan fo Cymwysterau Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad mewn cysylltiad ag arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau;

(b) ym mha fodd y mae'n bwriadu cynnal ymgynghoriad.

(4) Rhaid i Gymwysterau Cymru adolygu'r datganiadau a lunnir o dan yr adran hon yn gyson, ac os yw'n ystyried ei bod yn briodol o ganlyniad i adolygiad, lunio datganiadau diwygiedig.

(5) Rhaid i Gymwysterau Cymru gyhoeddi unrhyw ddatganiad neu ddatganiad diwygiedig a lunnir o dan yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 47 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** A. 47 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 47.